

# Swydd Ddisgrifiad

Manylion pellach

## Cynorthwydd Ymchwil - 4 Swydd, Ysgol Gwyddorau Biolegol, Daear ac Amgylcheddol, Prifysgol Corc

12 Mis, Tymor Penodol, Llawn Amser

Crynodeb o'r swydd

Mae cynllun LIVE (Llŷn IVeragh Ecomuseums) yn fenter aml-bartner fydd yn sefydlu Ecoamgueddfa yng ngorllewin Iveragh, Kerry, Iwerddon, ac yn adeiladu ar waith yr #Ecoamgueddfa ym Mhenrhyn Llŷn, Gwynedd, Cymru. Prif ffocws y cynllun yw cynyddu potensial treftadaeth naturiol lleol fel ased sydd yn uchafu gwerth yn y sector dwristiaeth. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd dîm amrywiol o bobl gyda'r dyhead, sgiliau ac uchelgais i alluogi'r cymunedau i farchnata eu cyfalaf naturiol a diwylliannol yn effeithiol i greu cynigion twristiaeth cynaliadwy. Un o agweddau mwyaf arloesol y cynllun yw'r strategaeth o fanteisio ar adnoddau, gwybodaeth presennol a newydd sydd eisoes yn bodoli yn ein cymunedau a'n prifysgolion gyda'r nod o ddatblygu, gwella ac arolygu ansawdd ac effaith eco dwristiaeth yn y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan.

Rydym yn chwilio am bedwar person i gasglu gwybodaeth yng nghynllun LIVE. Byddwn yn recriwtio unigolion cymwys ar gontract blwyddyn i hwyluso datblygiad ystod amrywiol o weithgareddau casglu gwybodaeth sy'n gofyn am amrywiaeth o sgiliau arbenigol, yn ymwneud yn bennaf â threftadaeth a/neu'r amgylchedd. Bydd y casglwyr gwybodaeth wedi'u lleoli ar Benrhyn Iveragh, Co. Kerry, Iwerddon, neu ar Benrhyn Llŷn yng Nghymru gyda rhywfaint o deithio a chydweithio trawsffiniol rhwng y ddwy ardal. Er y bydd yr union bynciau i'w harchwilio yn cael eu diffinio gan y rhan ddeiliaid lleol, rydym yn gobeithio recriwtio unigolion sydd â phrofiad a gwybodaeth yn y meysydd canlynol: paleo-ddaear; ecoleg forol; bioamrywiaeth arfordirol; ac eco-dwristiaeth.

I gael mwy o wybodaeth am Raglen Cydweithrediad Iwerddon Cymru, ewch i [www.irelandwales.eu](http://www.irelandwales.eu).

Hyd y swydd: 12 Mis

Cyflog: €22,609 - €35,218 y.f. (Graddfa Cyflog IUA)

Teitl y prosiect: LIVE Operation

Am becyn gwybodaeth gan gynnwys manylion pellach am y swydd gweler <https://ore.ucc.ie/>.

Gellir gwneud ymholiadau anffurfiol yn gyfrinachol i Dr Pat Meere ([p.meere@ucc.ie](mailto:p.meere@ucc.ie)) neu Dr Fidelma Butler ([f.butler@ucc.ie](mailto:f.butler@ucc.ie)).

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein trwy borth swyddi Prifysgol Corc (<https://ore.ucc.ie/>). Dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud â'r broses ymgeisio ar-lein at [recruitment@ucc.ie](mailto:recruitment@ucc.ie), gan ddyfynnu teitl y swydd ac enw'r prosiect.

Dylai ymgeiswyr wneud cais, yn gyfrinachol, cyn hanner dydd, dydd Mawrth, 30 Mehefin 2020. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.

MAE PRIFYSGOL CORK YN CYFLOGWR CYFLE CYFARTAL

Sylwch y bydd penodiad i swyddi a hysbysebiri yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Brifysgol, ynghyd â thelerau'r fframwaith rheoli cyflogaeth ar gyfer y sector addysg uwch.

**Enw Cyswllt :** Dr Pat Meere, Dr Fidelma Butler **Cyfeiriad Ebost :** [p.meere@ucc.ie](mailto:p.meere@ucc.ie), [f.butler@ucc.ie](mailto:f.butler@ucc.ie)

**Cod Swydd :** 040731 **Rhif Cyswllt :**

**Dyddiad Cau :** 30-Mehefin-2020 12:00